OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1466

# Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Cychwyn, Diwygiadau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2013

**Darpariaethau Trosiannol**

**4.**—(1) Mewn perthynas â'r cyfnod pan fo penodiad archwilydd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**) yn cael ei barhau gan baragraff 2(2) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, mae'r canlynol yn cael effaith fel petaent heb eu diwygio gan y Gorchymyn hwn—

(a) y diffiniad o "the auditor" yn rheoliad 2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997(**2**);

(b) rheoliad 6(5)(b) o Reoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002(**3**);

(c) rheoliad 5(4)(b) o Reoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002(**4**);

(d) rheoliad 6(6)(b) o Reoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002(**5**); ac

(e) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005(**6**).

(2) Mae penodiad unrhyw berson fel archwilydd o dan adran 145B(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**) yn parhau i gael effaith tan ddiwedd y cyfnod y gwnaed y penodiad ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i derfynu'n gynnar).

(3) Nid yw'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud i erthygl 4(2)(c)(v) o Orchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998(**8**) gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gontractau yr ymrwymwyd iddynt ar 31 Mawrth 2014 neu cyn hynny.

(**1**) 2004 p. 23 .
(**2**) O.S. 1997/2862 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**3**) O.S. 2002/438 (Cy. 56) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65).
(**4**) O.S. 2002/679 (Cy. 76) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65).
(**5**) O.S. 2002/1857 (Cy. 181) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy. 65). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**6**) O.S. 2005/368 (Cy. 34) y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**7**) 1998 p.38.
(**8**) O.S. 1998/648 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/757 (Cy. 62). Mae offeryn diwygio arall nad yw'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn.